# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ar
**Nos Iau 20 Ebrill 2023 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Carwyn Edwards
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Anwen Jones

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair Owen Pierce. **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Gareth P Williams, David H Roberts Jones a Beca Roberts.

**Chris Roberts, GwyrddNi**
Cafwyd diweddariad gan Chris am yr Cynulliad Cymunedol. Nodwyd fod Gwyl Hinsawdd Dyffryn Ogwen yn gael ei gynnal ar ddydd Llun, 1af o Fai yn Llys Dafydd. Cytunwyd y bydd Chris yn danfon y wybodaeth ymlaen at y Clerc, a'r Clerc i gylchredeg y wybodaeth i'r aelodau. Diolchwyd i Chris a'r cynulliad am eu gwaith caled.

**Huw Davies, Dyffryn Gwyrdd**
Cafwyd sgwrs gyda Huw Davies, Rheolwr Prosiect Dyffryn Gwyrdd ynglyn a cais 'Dyffryn Caredig' sydd yn gael ei gyflwyno ar y 9fed o Fehefin, 2023. Eglurwyd mai bwriad y cais i gronfa Arian i Bawb y Loteri yw ymestyn y gwaith trafnidiaeth cymunedol trydan sydd wedi'i gyflawni gan y Dyffryn Gwyrdd ers Awst 2020. Nodwyd eu bod yn ymgynghori ar hyn o bryd, a gofynwyd yn garedig i'r aelodau gwblhau'r holiadur. Diolchwyd Huw am y cyfle i gyflwyno i'r Cyngor ac yn awyddus i gael cefnogaeth y Cyngor digwyddiadau lleol dros yr wythnosau a misoedd nesaf.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn edrych ar fan welliannau yn yr ardal i geisio arafu traffig a bydden nhw hefo gwell syniad o be allwn nhw ei gynnig yn yr wythnosau nesaf. Dim diweddariad hyd yn hyn.

**3.2 Llecyn Tir, Bont Tŵr** –Cadarnhawyd fod cwmni Savills yn edrych i fewn i'r mater, ac mi fydden nhw yn cysylltu yn ôl yn fuan iawn.

**3.3 Llwybr Rhif 3** – Adroddwyd fod dipyn o dryswch ynglyn a'r llwybr hwn, ac syndod fod y Swyddog Llwybrau bellach yn nodi fod ddim angen gwaith yma. Y Clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r Swyddog Llwybrau cyn gynted a bu'r modd er mwyn mynd i wraidd y mater.

**3.4 Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main -** Y Clerc wedi gwneud cais am ddau drych, un bob ochr. Derbyniwyd adolygiad gan y Swyddog Traffig, ac yn flaenorol container a coed sydd yn blocio gwelededd ar y cyffordd. Mae gan y tirfeddianwyr cyfrifoldeb i gadw'r cyffordd sydd ar terfyn ei tir yn clir o unrhyw rhwystrau. O ganlyniad, fydd y Cyngor yn mynd ymlaen i ofyn am gyngor gan yr adran Priffyrdd ar sut bydd y ffordd orau i ddelio gyda'r mater hwn.

**3.5 Lôn y Wern, Tregarth** –Nodwyd y Cyngr. Dafydd Roberts a Sian Beidas fod ychydig o waith clytio wedi ei gwblhau, ond fod angen mwy o waith ar y ffordd rhwng Eglwys Gelli a Cororion. Dim gwaith wedi gael ei gwblhau ac heb dderbyn ymateb, y Clerc i holi eto.

**3.6 Mainc Pentref Llandygai –** Derbyniwyd ymateb gan Llifon Foulkes - Yn anffodus nid yw Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i ariannu fainc newydd , a mae'n debygol fydd llai o gyllid yn cael ei rhoi iddynt yn yr flwyddyn ariannol newydd. Mae'r arian am meinciau newydd yn dod o'r un cyllid a'r arian cynnal a chadw meysydd chwarae. Mae ganddynt oddeutu 130 o feysydd chwarae trwy'r Sir ac mae'n rhaid iddynt rhoid blaenoriaeth i'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn y meysydd chwarae yma, fel bod yr offer chwarae yn ddiogel i blant ddefnyddio. Mae'n debygol felly fydd dim arian ar gael i ni allu rhoi mainc ychwanegol ar y tir agored sydd ganddynt yn Llandygai o fewn y dyfodol rhagweladwy. Mi fydd y safle yn parhau i fod ar ein rhestr disgwyl ac os fydd arian ar gael yn y dyfodol yna mi wnawn ystyried rhoi mainc ychwanegol yno.

**3.7 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors** –Y Clerc wedi danfon y llythyr ymlaen at Julie James AS a Sian Gwenllian AS, a gofyn iddynt am eu sylwadau. Derbyniwyd ymateb gan Sian Gwenllian AS, ond heb dderbyn ymateb gan Julie James AS. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**3.8 Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –** Nodwyd y Clerc fod hysbysfwrdd newydd metel yn costio oddeutu £1345 + VAT. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i archebu un ar hyn o bryd. Y Clerc i weld os oes modd atgyweirio'r hysbysfwrdd gwreiddiol.

**3.9 Lon Hafodty -** Adroddwyd fod y tyllau wedi gael ei llenwi, ond fod bwlch dal wedi disgyn, y Clerc i holi Cyngor Gwynedd.

**3.10 Llwybrau Cyhoeddus -** Y Clerc wedi holi'r Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd, am fapiau a dogfennau eraill cyn gynted a phosib – nodwyd oedd y Clerc i fod i gyfarfod gyda'r swyddog dydd Gwener, 10fed o Fawrth, ond oedd rhaid gohirio oherwydd y tywydd. Y Clerc i holi'r Swyddog am ddyddiad arall cyn gynted a bu'r modd.

**3.11 Palmant Allt Cerrigllwydion** – Adroddwyd fod llawr o fwsog ar hyd y palmant hwn – y Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd – y Clerc hefyd wedi danfon y wybodaeth ymlaen at y Cyng. Beca Roberts, a'i gynnwys yn y rhestr Tim Tacluso – ond cafwyd ymateb fod y tim ddim yn gallu cwblhau'r gwaith, oherwydd nad yw'r gwaith yn ei 'patsh' nhw. Cafwyd adroddiad fod y Tim Tacluso wedi bod allan i glirio'r mwsogy Stad Pendinas, ond ddim yn siwr os ydynt wedi cwblhau'r gwaith clirio ar y palmant lawr allt Cerrigllwydion. Y Clerc i ymweld a'r safle.

**3.12 Bin halen Dob –** Nodwyd fod angen bin newydd yma, y Clerc i holi eto.

**3.13 Materion priffyrdd** – Y Clerc wedi gwahodd Steffan Jones Cyngor Gwynedd i gyfarfod a'r Cyngor – cytunwyd y bydd yn gallu mynychu ein cyfarfod ym mis Mehefin.
**3.14 Glanhau cysgodfannau bws** – Y Clerc i ofyn i'r Swyddog Cynnal glanhau'r llochesi bws – ar y gweill.
**3.15 Seddi Gwag** –Y Clerc i hysbysebu'r 2 sedd wag eto.

**4. Gohebiaeth**
Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2023'
**Cyflwynwyd:** Cyng. Beca Roberts/Colin Thomas - Llochesi Bws Tregarth – Yn anffodus nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i gyllido lloches bws y flwyddyn ariannol hwn, ond yn cytuno fod angen gael rhyw fath o lloches ger y bont rheilffordd. Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd beth yw'r posibilrwydd o gael lloches ar y safle hwn, ac i holi os oes grantiau ar gael.
**Cyflwynwyd:** Parc Cenedlaethol Eryri – Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Eryri – os yw o ddiddoreb, pawb i ddanfon sylwadau fel unigolion.
**Cyflwynwyd:** Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd – Terfynau Cyflymder 20mya – Cyfle i rhoi eich barn – penderfynwyd cefnogi'r prosiect hwn. Yr aelodau i ddanfon
**Cyflwynwyd:** Ffurflen gais rhoddion – Neuadd Goffa Mynydd Llandygai – y Clerc i holi os oes modd i'r Neuadd gwneud cais i Elusen Ogwen yn gyntaf, y Cyng. Mary Hayes i adrodd yn ôl i'r Neuadd.

**5. Penodi Archwilwyr Mewnol**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i benodi Uned Archwilio Mewnol, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd unwaith eto fel Archwilydd ar gyfer cyfrifon 2022-23.

**6. Cyng Beca Roberts – Murlun Tywyll Tywyll**
Derbyniwyd ddiweddariad ar y prosiect hwn drwy ebost.

**7. Rhoddion**
Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn. Nodwyd fod y Cyngor ddim mewn sefyllfa ariannol i rhoid y symiau arferol.
*(Datgan diddordeb pan fo angen)*

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £100.00 |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £100.00 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £100.00 |
| Carnifal Bethesda | £100.00 |

**8. Gwaith y mis**
**Posteri a bagiau baw ci** – Cyng. Beca Roberts wedi bod o amgylch yr ardal yn rhoid ychwaneg o posteri a bagiau i fyny, a'r Clerc wedi rhannu rhai gyda trigolion Ffordd Tanrhiw.
**Bin baw ci Sling** – Y Clerc i holi Cyng. Beca Roberts os oes modd gwneud cais am bin yma. Cyng. Dafydd Owen wedi holi eisoes.

**9. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth** – Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Dafydd Owen am materion y Ganolfan. Penderfynwyd i'r Clerc danfon ebost i'r adran priffyrdd ynglyn a'r mater

hanesyddol o’r problem dwr yn dod lawr o’r ffordd i’r Ganolfan – nodwyd fod Swyddog Eiddo wedi tynnu lluniau, y Clerc i’w gynnwys yn yr ebost.

**10. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**10.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar dd iwedd mis Mawrth. Derbyniwyd yr adroddiad.

**11. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu ar y pryd cyfarfod m is Mawrth 2023 | £210.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol | £10,124.33 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at costau rhedeg y Llyfrgell | £708.00 |
| Cyngor Gwynedd | Rhent Canolfan Tregarth | £5.00 |

**12. Penderfyniadau Cynllun**

| | |
|---|---|
| **C23/0072/16/LL** | Plot C6, Parc Bryn Cegin, Llandegai,<br>Codi adeilad ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1/B2,/B8 (gyda Chownter Masnach mewn unrhyw uned B8) ac adeilad i'w ddefnyddio fel Masnachwr Adeiladwyr (storio, dosbarthu, cownter masnach, swyddfeydd a manwerthu ategol) gyda storfa allanol gysylltiedig, ardal arddangos, mynediad, parcio, goleuadau, ffensys, tirweddu caled a meddal.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0131/16/CC** | Bryn Derwen, Bethesda<br>Torri onnen sydd wedi ei warchod gan Orchymyn Gwarchod Coed.<br>**Penderfyniad:** Caniatwyd gydag amodau. |
| **C22/1153/16/LL** | Tir gyferbyn Pant yr Ardd, Tregarth |

Adeiladu 2 annedd ar wahân, trefniadau mynediad newydd a pharcio. Byddai un tŷ ar gael ar y farchnad agored a'r llall yn dŷ fforddiadwy ecwiti ar y cyd.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**13. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C23/0277/16/DT** | 6 Maes Ogwen, Tregarth<br>Estyniad un llawr i'r cefn<br>**Penderfyniad:** Cefnogi. |
| **C23/0237/16/DT** | 9 Pen y Ffriddoedd, Tregarth<br>Estyniad i ochr a blaen y modurdy / storfa presennol a chais ôl-weithredol am estyniad i'r cwrtil.<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C23/0271/16/RA** | Cwt yr Haul, Ffrwd Galed, Tregarth<br>Cais i ryddhau amodau 3 (manylion deunyddiau), 4 (Asesiad Ecolegol Cychwynnol), 5 (cynllun rheoli rhywogaethau ymledol) & 7 (Mesurau Osgoi Rhesymol) o ganiatâd cynllunio C22/0717/16/LL ar gyfer tŷ annedd newydd.<br>**Penderfyniad:** Dim sylwadau pellach. |
| **C23/0315/16/LL** | Fferm Tan y Foel, Lon Rallt, Pentir<br>Codi tŷ gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad:** Gwrthod. |

**14. Unrhyw fater brys arall**
Dim.